# Cenn@d

GORFFENNAF 19 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 125


## Sôn am adnewyddu a gobaith am y dyfodol yng Nghaerfyrddin: Y Gymanfa Gyffredinol 2023

Cynhaliodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) ei Chymanfa Gyffredinol flynyddol yng Nghaerfyrddin, o ddydd Llun, 10 Gorffennaf, tan ddydd Mercher, 12 Gorffennaf, lle daeth 120 o gynrychiolwyr ynghyd o'r henaduriaethau a'r adrannau gwahanol i ganolfan Prifysgol y Drindod, Dewi Sant yno.

Er gwaethaf cefndir o ddirywiad eglwysig serth o fewn enwadau hanesyddol Cymru, roedd y Gymanfa yn lle o ganolbwyntio ar wreiddiau'r eglwys mewn ffydd a chenhadaeth ac o adrodd am yr adnewyddu sy'n digwydd yn ein plith a'r heriau sydd gennym wrth geisio cyrraedd cenhedlaeth newydd. Y mae eleni yn nodi 200 mlwyddiant y Gyffes Ffydd a luniwyd gan arweinwyr y corff yn 1823 i fynegi pwy oedden nhw bryd hynny a'r ffydd a'r hyder oedd ganddyn nhw yn eu profiad o arweiniad yr Arglwydd a'i Ysbryd. Cafwyd darlith hanes gan y Parch Phillip Eveson i godi cwr y llen ar y 'Clasur Anghofiedig' hwnnw.

Dechreuwyd y Gymanfa eleni gyda gwasanaeth o gymun a choffâd am y gweinidogion a'r llywyddion hynny oedd wedi ein gadael i'w gwobr ers ein cyfarfod diwethaf yng Nghaerdydd ym Medi 2022.

Yn y cyfarfod cyhoeddus cyntaf fe gawsom ein hannog gan y Parch Robert Cunville o Eglwys Bresbyteraidd India yn Shillong gyda chomisiwn mawr Iesu i fynd allan i wneud disgyblion. Mae Robert, yn ogystal â bod yn weinidog yn Eglwys Bresbyteraidd India, yn rhan o fudiad cenhadol y diweddar Billy Graham ac wedi gweld miloedd yn ymateb i'r alwad at Grist wrth iddo barhau i deithio ledled y byd i gynnal cenadaethau. Gan ddyfynnu pwyslais rhai fel Daniel Rowland ac Evan Roberts, ein diwygwyr ein hunain, fe'n hanogodd i beidio â cholli ein gobaith yng Nghymru yn yr Arglwydd Iesu sydd â phob awdurdod yn eiddo iddo.



Y cynrychiolwyr o Mizoram gyda'r Parch Robert Cunville (chwith).

Fe ganolbwyntwyd ar rai materion allweddol yn y Gymanfa eleni ac fe geisir gosod peth o'r gweithgaredd mawr a adroddwyd yno o dan y rheiny, sef:

**• Perthynas EBC ag Eglwys Bresbyteraidd India ac eglwysi eraill yn fyd-eang**
Cafwyd cyfarchion gan y cynrychiolwyr o Mizoram oedd yn bresennol yn y gynhadledd a chawsom gofio am yr helynt llwythol ym Manipur lle mae cannoedd o eglwysi wedi eu difrodi a'u llosgi a nifer wedi eu lladd. Yr ydym yn parhau i gofio hefyd am ein cysylltiad gyda'r Eglwys Bresbyteraidd ym Mayanmar lle mae rhyfel cartref yn parhau.

Yn y Ddarlith Davies eleni, fe gafodd y darlithydd, Huw Powell-Davies, dynnu sylw at 'Argraff Cenhadaeth', gan sylwi ar yr argraff ddofn y mae ein cenhadaeth o Gymru wedi ei gadael ymhlith llwythau Gogledd-ddwyrain India a'u hargraffiadau hwythau a ninnau o hynny heddiw. Tynnodd wersi yn y gefnogaeth a'r gwarchod fu ar y genhadaeth fechan fregus o'r cychwyn.

Dathlwyd ein cysylltiad gydag eglwys Bresbyteraidd Taiwan hefyd, gyda'r llywydd Evan Morgan yn cyfeirio at ei daith yno ac yn gofyn am weddi dros yr eglwys a'r ynys yn gyfan. Mae hi'n eglwys arwrol a blaenllaw, yn arloesol hefyd ac wedi bod yn fodlon sefyll yn gadarn yn erbyn anghyfiawnder a gorthrwm.

Yr oedd ymddeoliad Charles Chua a'i wraig Molly o'u gwaith ymhlith myfyrwyr rhyngwladol a'r eglwys yn Abertawe yn arwyddo diwedd cyfnod o 21 mlynedd o bartneriaeth mewn cenhadaeth gyda CWM a'r Eglwys Bresbyteraidd yn Singapore. Diolchodd Charles am gefnogaeth yr eglwysi a'r enwad iddo yntau a Molly yn eu cenhadaeth – sydd wedi bod yn bellgyrhaeddol a ffrwythlon iawn.

**• Cyfathrebu'r Newyddion Da**
Rhannwyd straeon am waith a newyddion da, am obaith ac adnewyddiad mewn nifer o'r gwahanol adroddiadau drwy'r Gymanfa gydag anogaeth wrth fwrdd y cymun gan Anna Jane Evans, gan gaplan y Gymanfa, Emyr Williams, a'r llywydd Evan Morgan yn ei neges ymadawol i fod yn hau hadau ac yn gwneud hynny allwn tra medrwn, tra mae hi'n olau dydd arnom.

Llawenydd mawr oedd cael cyflwyno siec o £150,000 i Gymorth Cristnogol yn dilyn ein hapêl Hadau Gobaith ar gyfiawnder hinsawdd.




Cyflwyno siec i Andrew Sully o Gymorth Cristnogol

Yr oedd adroddiadau Adrannau'r Chwiorydd a Gwaith Plant ac Ieuenctid yn llawn straeon da wrth inni glywed am waith mewn cartrefi henoed ymhlith rhai gyda dementia. Lansiwyd rhagor o adnoddau yn y gyfres o dan y cynllun Golud i helpu arweinwyr i fod


*(parhad ar y dudalen nesaf)*



Croeso'r Eglwysi yn y Sioe
**Tudalen 3**

Agor y Llyfr ar ei newydd wedd
**Tudalen 5**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 7**

*Sôn am adnewyddu a gobaith am y dyfodol yng Nghaerfyrddin: Y Gymanfa Gyffredinol 2023*
*(parhad o dudalen 1)*

yn gweinidogaethu i rai yn byw gyda dementia ac adnodd 'Trysorau'r Ysgol Sul'.



Gweithwyr Adran y Chwiorydd gyda'r llywydd, Christine Hodgins

Llawenydd oedd clywed am y Weinidogaeth Iachâu yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed eleni a'r Ysgol Wanwyn oedd wedi ei chynnal. Llywydd newydd y Gymanfa, Aneurin Owen, oedd wedi cynnal yr oedfa gymun yno a thystiodd i'r fendith ysbrydol yr oedd wedi ei chael yno.

Wrth adrodd o'r Adran Gyhoeddi ei hun, fe gafwyd diolch i Watcyn James a fu'n golygu'r *Goleuad* am 5 mlynedd ac yna'n cydolygu *Cenn@d* hyd ddiwedd yr haf eleni. Tystiodd Marian Beech Hughes i'w ddyfalbarhad a'i hynawsedd wrth gyflawni'r gwaith o gyfathrebu ein stori o wythnos i wythnos. Cafwyd sôn am nifer o gyfrolau sydd wedi neu sydd ar fin cael eu lansio ac am apêl fawr arnom fel Cyfundeb i gefnogi ein cyhoeddiad ein hunain yn *Y Traethodydd* a hefyd *Cristion*, ein cyhoeddiad cydenwadol.

**Gwaith Plant ac Ieuenctid a Choleg y Bala**
Dechreuwyd adroddiad y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid gyda fideo a gynhyrchwyd ddeng mlynedd yn ôl i annog yr eglwysi i gofio am eu cyfrifoldeb 'i ddweud wrth y genhedlaeth nesaf... am ei nerth a'r pethau rhyfeddol a wnaeth' (Salm 78:4). Erbyn diwedd y cyflwyniad yr oedd yn hyfrydwch cael diweddariad gan rai o'r plant fu'n rhan o'r ffilm gyda'u gobaith ar gyfer y deng mlynedd nesaf.



Anrhydeddu'r Parch. Evan Morgan fel cyn-Lywydd â Medal Goffa Parch. Huw Whomsley, wedi ei araith ymadawol

Rhannwyd straeon am waith gyda rhieni ifanc yn yr Wyddgrug a Llundain, am ailgychwyn Ysgol Sul yn Llanfairpwll, Alffa ieuenctid yn Wrecsam, gwaith pontio rhwng yr eglwys a'r bobl ifanc yng Nghasnewydd. Drwy'r cyfan, fe ddiolchwyd am gefnogaeth tîm Coleg y Bala i'r gwaith ac am bwysigrwydd y cyrsiau yno i dwf ysbrydol y plant a'r ieuenctid. Wrth adrodd am y gwaith oedd wedi ei wneud i ddiweddaru'r boeleri a'r cyflenwad dŵr yng nghanolfan Coleg y Bala, fe ddiolchwyd am bob cefnogaeth gan yr enwad hyd yn hyn a haelioni aelodau ac eglwysi tuag at y gwaith yn y ganolfan. Anogwyd y rhai oedd yno i fod yn ymwybodol o'r angen i geisio partneriaid newydd yn y gwaith wrth i gyfnod o ariannu llawn ddod i ben yn niwedd '24.

**• Gwaith Arloesol**
Wedi cyflwyniad Wayne Adams a fideo i gynnwys yr amrywiaeth o weinidogaethau arloesol mae'r eglwys yn eu cefnogi bellach, fe gafwyd trafodaeth fuddiol iawn ac oesol bron ar y ffordd y mae gwaith newydd yn cyd-fynd efo gweinidogaeth draddodiadol. Wrth sylwi mewn arolwg a wnaed nad oedd ond 2% o'r boblogaeth leol yn cysylltu gydag eglwys o unrhyw fath, fe nododd Steffan Morris, un o'n harloeswyr ifanc yn ardal Llandysul, 'bod yn rhaid i bob gweinidog a henaduriaeth ac enwad – pawb ohonom, feddwl a gweithredu yn arloesol.' Crynhodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y mater wrth ddweud nad un neu'r llall oedd ei angen, ond 'mwy o fentro a mwy o weinidogaeth'.



Aneurin Owen a sefydlwyd yn Llywydd am y ddwy flynedd i ddod. Gweler y cyfweliad gydag ef ar sianel YouTube EBC: https://youtu.be/PfuHsXiVCZI

**• Adeiladau**
Ai baich yntau cyfle yw ein hadeiladau bellach? Fe lansiwyd nifer o daflenni gwybodaeth gan yr Adran Adnoddau ac Eiddo o dan gadeiryddiaeth Steve Wynn o Morton. Bydd y rhain yn ein helpu i fynd i'r afael efo ystyriaethau amgylcheddol ein Polisi Amgylcheddol. Yr oedd yna ddigon o bethau i'w trafod o dan bennawd yr adeiladau a da oedd gwybod am y gefnogaeth sydd inni o'r Swyddfa yn y materion hyn.

Un hen adeilad sydd eto i'w weld yn bwysig inni fel enwad yw Coleg Trefeca ym Mannau Brycheiniog, ac fe gafwyd diweddariad ar y gwaith o addasu a hyrwyddo sy'n digwydd yno wrth i'r ganolfan fentro i gyfeiriadau newydd ond cadw ar hen lwybrau'r tadau yn y ffydd.

Gyda blas lleol cryf, fe ddaethpwyd â'r Gymanfa i ben wrth ganu emyn mawr David Charles, Caerfyrddin: 'O fryniau Caersalem ceir gweled', gan feddwl am y troeon hynny ar yrfa sydd wedi ein cadw hyd yma yng ngwasanaeth yr Arglwydd yn y Gymru sydd ohoni.

*Gol:HP-D*



Y Parch. Ddr Phillip Eveson draddododd y ddarlith ar daucanmlwyddiant y Gyffes Ffydd



Rhai o'r gweithwyr fu'n cyfrannu



Parchg Ddr John Tudno Williams yng nghwmni rhai o'r myfyrwyr y bu'n eu dysgu ar achlysur 60 mlynedd ers ei ordeinio i'r weinidogaeth

# Croeso'r Eglwysi yn y Sioe




A hithau'n nesáu at ganol mis Gorffennaf, a'r ysgolion yn paratoi i gau am yr haf, bydd ardal Llanelwedd unwaith eto yn paratoi i groesawu 50,000 o ymwelwyr yn ddyddiol dros gyfnod o 4 diwrnod rhwng y 24ain a'r 27ain o'r mis yma ar gyfer y Sioe Fawr flynyddol. Dyma ddathliad o fyd a bywyd amaethyddol Cymru, lle bydd ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd yn dangos eu cynnyrch, ynghanol cystadlu brwd a llawer o ddigwyddiadau ac adloniant amrywiol, o geffylau'n perfformio i awyrennau yn hedfan drosodd gyda'u campau. Mae'n faes sylweddol, gyda dros 700 o stondinau, yn arddangos a gwerthu pob math o gynnyrch.

Ynghanol hyn i gyd, mae'r eglwysi yn ceisio bod yno i gyfarfod a gwasanaethu pwy bynnag sydd am droi i mewn atom. Yn ôl yr arfer bydd stondin Cytûn yn agored rhwng 8.00 y bore a 6.00 y nos bob dydd, gyda phaned, teisen gri a sgwrs ar gael unrhyw bryd. Cynhelir cyfarfod gweddi bob bore am 8.00, oedfa am 11.00 a gwasanaeth byr eto am 5.00. O fewn y babell ceir ardal gweithgaredd plant, a diolch am waith tîm gweithwyr plant Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu sy'n trefnu hyn ar ein cyfer. Diolch hefyd i Undeb y Mamau am ofalu ar ôl y baned yn y babell. Yn ôl eu harfer bydd y Cyngor Ysgolion Sul yno gyda dewis eang o adnoddau yn Gymraeg a Saesneg, ac yn hapus i drafod agweddau o weinidogaeth a chenhadaeth yr eglwys. Bydd tîm gweddi ar gael yno hefyd trwy gydol yr wythnos, a chornel weddi bwrpasol ar y stondin. Elfen bwysig arall yw presenoldeb Tir Dewi yn y babell, yr elusen Gristnogol sy'n cefnogi lles a budd ffermwyr Cymru.

Mae'r gweithgaredd ffurfiol yn cychwyn ar y nos Sul cynt, gyda gwasanaeth am 6.00 yn eglwys y plwyf, a'r oedfa honno yng ngofal Llywydd y sioe a'i gaplan, sydd eleni o sir Forgannwg. Yna fe fydd cannoedd fel arfer yn heidio gyda'r nos i'r Sied Ddefaid ar gyfer Moliant y Maes blynyddol, lle ceir cymanfa ganu ddwyieithog.




Agwedd bwysig arall o'n gwaith ar y maes yw'r gwasanaeth caplaniaeth. Bydd tîm o gaplaniaid ar wasanaeth 24 awr, gyda nifer yn crwydro'r maes yn sgwrsio a chynorthwyo, lle bynnag mae'r angen. Diolch am waith y caplaniaid hyn, ac os oes yna rywrai o ddarllenwyr *Cenn@d* mewn ffordd i ystyried bod yn gaplaniaid yn y dyfodol, buasem yn falch o glywed gennych. Mae hyfforddiant llawn ar gael, ac mae gwirioneddol angen mwy o gaplaniaid sy'n siarad Cymraeg arnom.

Felly os byddwch yn mynd i gyfeiriad y Sioe, cofiwch alw mewn i'n gweld – mae'r stondin ar res 'D', heb fod yn bell o stondin y Cyngor Llyfrau. Mae croeso cynnes yno i bawb.

*Aled Davies*

# Heriau blwyddyn yr amaethwr

Wel, dyma ni, blwyddyn arall wedi mynd heibio a ninnau ar drothwy Sioe Frenhinol arall, lle bydd amaethwyr o bob rhan o Gymru yn dod at ei gilydd i fwynhau rhoi'r byd yn ei le a bod yng nghanol y cynnyrch gore sydd gan gefn gwlad i'w gynnig!



Rwyf wedi bod yn ffermio bellach ers dros bedwar deg o flynyddoedd ac yn yr amser hwnnw wedi profi llawer iawn o newid a heriau yn y diwydiant. Mae rhai pethau o fewn fy ngallu i newid a phethau eraill na allaf eu newid - fel yr un peth sydd yn allweddol bwysig i ffarmwr sef y tywydd!

Roedd sychdwr y llynedd yn enghraifft dda o hynny. Roedd gwres llethol yr haf a'r diffyg glaw yn golygu i ni orfod bwydo'r gwartheg gyda phorthiant oedd i fod i'w bwydo dros fisoedd y gaeaf! Er ein bod wedi gallu delio gyda'r sefyllfa yna drwy brynu porthiant i fewn i'r anifeiliaid, mae'n dangos yn yr oes sydd ohoni bod newid hinsawdd yn her fawr i amaethu ar hyn o bryd. Wrth imi ysgrifennu hwn, mae'r newyddion yn dangos gwres, sychdwr a thanau dros Ewrop, a llifogydd yn rhannau eraill o'r byd, ac mae'r byd amaeth yn cael ei gyfri'n rhan o'r broblem gan rai gwyddonwyr.

Fferm laeth sydd gen i adre ac mae'n ofynnol i ni bellach gofnodi ein cerddediad carbon, cadw record o'r lefelau nitrogen sydd yn cael ei ddefnyddio ar y tir, gofalu bod yr anifeiliaid yn cael eu porthi ar borfa neu gynnyrch naturiol o'r ffarm sydd ddim yn cael ei brynu i mewn. Yn sicr, mae'r amgylchedd a newid hinsawdd wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd dwytha.

Mi rydym hefyd ar y fferm newydd ddod allan o gyfnod clo oherwydd TB ar y gwartheg am 8 mis gyda gwaharddiad ar brynu a gwerthu anifeiliaid. Mae'n siŵr gen i ei bod yn dibynnu ar bersonoliaeth y ffermwr sut mae'n delio gyda'r sefyllfa

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Croeso'r Eglwysi yn y Sioe*
*(parhad o dudalen 3)*

yma, ond mae'n anodd hyd yn oed i'r rhai cryfa eu meddwl orfod difa gwartheg maent wedi eu magu a gofalu amdanynt ers yn lloeau bach!

Mae iechyd meddwl a chryfder meddwl yn cael lle mewn amaethu heddiw gyda nifer o elusennau ac ymgyrchoedd yn cynnig help fel y DPJ, Tir Dewi a Nerth Dy Ben, sy'n cynnig cymorth a chlust i wrando ar y sawl sydd mewn trafferth. Mae'n beth da bod y rhain ar gael a'n bod yn cael ein hannog i fod yn agored gyda'n meddyliau a'n teimladau.

Pymtheg mlynedd yn ôl mi ges i sicrwydd yn fy ffydd Gristnogol ac ers hynny rwyf yn pwyso ac yn derbyn cryfder o'r berthynas sydd gennyf gyda Duw. Mae'n deimlad braf bod allan ar y buarth neu yn y caeau ym mhob tywydd, ac er gwaetha'r heriau mae'r gwaith yn eu taflu tuag ataf, gallaf ymddiried yn Nuw a bod ei bresenoldeb Ef i'w weld ac i'w deimlo ym mhob man.

*Huw Lloyd Evans*

**A hithau yn wythnos y Sioe Fawr yn Llanelwedd lle mae'r gymuned amaethyddol a'i chyfeillion yn dod at ei gilydd am wythnos o gystadlu a chymdeithasu, fe roddir y pwyntiau gweddi isod er mwyn i ninnau hefyd allu gweddïo dros y gymuned amaethyddol a rhoi diolch amdani. Beth am ddefnyddio'r pwyntiau i ysgogi gweddi bersonol neu gyhoeddus yr wythnos hon:**

**Diolch i gychwyn - bod Sioe i'w chynnal a stoc a chynnyrch i'w harddangos oherwydd daioni Duw tuag atom.**

**Diolch am y gymdeithas a geir yno.**

**Diolch am bob rhannu a dysgu ac anogaeth i bobl ifanc.**

**Diolch am y rhai sy'n gweithio i sicrhau bod bwyd i'w osod ar ein byrddau.**

**Gofyn ar i'r rhai sy'n gweithio ym myd amaeth heb fawr o gwmni gael cymdeithas a chlust i wrando.**

**Gofyn am nerth i'r rhai sydd wedi blino a diffygio.**

**Gofynnwn ar i bobl ifanc gael eu cadw yn ddiogel yno yr haf hwn.**

**Dros y rhai sydd wedi eu heffeithio'n feddyliol gan unigrwydd y blynyddoedd diwethaf hyn.**

**Dros bob gofid mawr a bach sydd ar feddwl amaethwyr y dyddiau hyn.**

**Dros ddyfodol cefn gwlad Cymru a gwytnwch y cymunedau hynny y mae amaethwyr yn rhan ohonyn nhw.**

**Dros bob ymdrech i werthfawrogi a diogelu daear da Duw.**

# Un funud fach ...

## 'Fi ydy ...'

Mae prosiect celf ar waith yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn. Mae pobl ifanc yr ysgolion lleol yn mentro creu gwaith celf i addurno'r festri. Mae plant Ysgol y Ddwylan yn dylunio gwaith celf ar hanes y Creu, ac Ysgol Gyfun Emlyn yn dehongli'r saith 'Fi ydy …' allan o Efengyl Ioan. Bydd yna enghreifftiau o'r rhain, gobeithio, yn *Cenn@d* cyn bo hir. Mae mor braf gweld y bobl ifanc yn trafod rhannau o'r Beibl ac yn ceisio'u dehongli yn eu ffyrdd nhw eu hunain. Yn yr ysgol uwchradd mae un 'Fi ydy …' wedi tynnu sylw'r bobl ifanc, sef 'Fi ydy'r ffordd'. Dyma'r ateb mae Iesu yn ei roi i Tomos yr efaill yn yr oruwchystafell, wrth i'r disgyblion geisio dod i ddeall beth yw'r cynllun a beth sydd i ddod.

Dros y mis neu ddau diwethaf dwi wedi bod yn teithio eitha tipyn ar ffyrdd ein gwlad. A dydw i ddim yn gwybod amdanoch chi, ond mae yna sawl arwydd ar y ffordd yn rhoi cyfarwyddiadau gwahanol, a rhai ohonynt yn medru bod yn rhwystredig dros ben. Wrth eistedd tu ôl i'r olwyn rydym yn gweld cynifer o arwyddion, ac mae'r rhain yn cyfleu neges. Maen nhw'n dweud wrthon ni, y gyrwyr, beth sydd yn digwydd o'n blaen, bod angen i ni baratoi am beth sydd i ddod. Wrth feddwl am 'Y Ffordd' roedd Iesu yn sôn amdani, efallai does dim un arwydd mwy addas na'r un sydd yn dangos bod yna waith yn cael ei wneud. Chi'n gwybod yr un dwi'n ei feddwl – yr un siâp triongl, a'r llun sydd yn edrych fel bod dyn yn cael trafferth agor ei ymbarél. Achos deallodd Iesu, wrth iddo siarad gyda'i ddisgyblion y noson cafodd ei fradychu, fod yna waith i'w wneud.

Ac mae'r neges yma'n dal yn addas i bawb dros ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach. Mae gwaith i'w wneud o hyd. Rydw i'n edrych ar yr arwydd ac yn gweld Iesu: fe yw'r dyn gyda'r caib a rhaw yn gweithio arnom ni o hyd. Ond ydyn ni yn barod i roi'r arwydd allan i ddangos bod angen y gwaith yn ein bywydau?

Does dim llawer o ffyrdd perffaith i'w cael: mae sawl twll ac ambell i grac, ac mae'n bywydau ni'n dra thebyg. Wrth i ni ddod i ddeall ein bod fel y ffordd, yn bell o fod yn berffaith, byddwn yn barod i arddangos yr arwydd, i adael i Iesu weithio arnom ni, gadael i Iesu wneud y ffordd damaid bach yn haws. Bydd yna



rwystrau o hyd yn dod ar ein traws, ac efallai y bydd ambell rwystr yn teimlo'n amhosib. Ond wrth ymddiried yn Iesu, a gadael iddo weithio yn ein bywydau, efallai bydd yr heol yn gliriach am gyfnod, er y bydd ambell olau coch yn gofyn i ni stopio ar adegau, a chamerâu cyflymder yn ceisio ein harafu ni i lawr. Dylai'r arwydd 'gwaith ar y ffordd' fod allan drwy'r amser, i ddangos bod angen Iesu, bod yna waith i'w wneud o hyd.

*Sian Elin Thomas*

# Agor y Llyfr ar ei newydd wedd

Bellach, mae'r cynllun poblogaidd hwn wedi ei ail-lansio gydag adnoddau newydd sbon. Y nod yw rhannu straeon Beiblaidd â phlant ym mhobman, drwy rym adrodd storïau. Mae Agor y Llyfr yn credu bod gan stori Feiblaidd wedi'i hadrodd yn dda y pŵer i danio'r dychymyg, ysbrydoli awydd i archwilio, rhoi gobaith, creu gwên, dysgu gwersi pwysig a chysylltu cenedlaethau.

Daeth cynulliad o gefnogwyr Agor y Llyfr ynghyd i Eglwys Gymunedol Baglan ddechrau mis Gorffennaf er mwyn bod yn rhan o fenter i lansio Agor y Llyfr ar ei newydd wedd. Ers dros 15 mlynedd bu'r cynllun hwn yn weithredol ar hyd a lled ysgolion dros Gymru gyfan. Roedd yr adnoddau a ddefnyddid wedi eu paratoi dros 25 mlynedd yn ôl yn wreiddiol, a theimlid erbyn hyn fod angen adnoddau ffres a chyfoes. Yn dilyn dwy flynedd o ysgrifennu, arbrofi a golygu, mae'r adnoddau hyn bellach wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Pleser pur oedd croesawu'r awdur Bob Hartman i Faglan, a chyda'i afiaith a'i ddawn i rannu stori, fe gyflwynodd rai o'r golygfeydd yn y cyfrolau newydd. Cafwyd cyflwyniad gan Kerry Evans o Agor y Llyfr yn Swindon, a chyflwyniad dramatig hefyd gan y storïwr o Rydaman, Dai Woolridge.

Fel rhan o'r digwyddiad cyflwynwyd y cyfrolau newydd, a bellach mae'r rhain ar gael drwy Gymdeithas y Beibl i'r holl grwpiau sydd wedi cofrestru gyda nhw.

### Beth yw Agor y Llyfr?


Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous lle rhennir straeon Beiblaidd â phlant mewn ffordd sy'n hwyl, yn rhyngweithiol a chofiadwy. Fel gwesteion a wahoddir i ysgol, mae timau o storïwyr yn defnyddio rhaglen Agor y Llyfr i baratoi a chyflwyno stori Feiblaidd sy'n para am 10–15 munud ac wedi ei sgriptio ar gyfer gwasanaeth ysgol, gan gynnwys y plant gymaint ag y bo modd.

Gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u recriwtio'n ddiogel gan eglwysi a sefydliadau lleol yw'r timau o storïwyr. Maen nhw'n ymrwymo i ddilyn Cod Ymarfer Agor y Llyfr, ac yn defnyddio *Beibl y Storïwr Agor y Llyfr* a *Llawlyfr y Storïwr*. Yn *Beibl y Storïwr* ceir 90 o storïau, gan ddechrau yn Genesis a mynd drwy'r Beibl hyd at lyfr y Datguddiad. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys popeth sydd ei angen ar storïwyr i greu gwasanaeth llawn. Mae croeso a chyflwyniad yn arwain at y stori fydd yn cael ei darllen, ac yna ceir munud dawel i fyfyrio a rhyfeddu, cyn cloi drwy offrymu gweddi.

Mae Agor y Llyfr yn ymwneud ag adrodd hanesion y Beibl, nid pregethu neu efengylu. Golyga hyn y gall plant o bob ffydd a'r rhai sydd heb ffydd wylio a rhyngweithio â'r straeon yn eu ffordd eu hunain. Rhoddwyd llawer iawn sylw a gofal i'r agwedd hon er mwyn sicrhau bod y straeon a sgriptiau'r gwasanaethau'n dderbyniol ac yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf posibl. Mae'r sgript hefyd yn caniatáu i blant o bob ffydd a'r rhai sydd heb ffydd benderfynu a hoffent ymuno â'r weddi ai peidio.

### Beth sydd rhaid i mi ei wneud i ddod yn storïwr?

- Mynd i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth.
- Archebu lle a mynychu sesiwn hyfforddi Agor y Llyfr.
- Cael eich recriwtio'n ddiogel gan eich eglwys neu sefydliad.
- Mynd at ysgol a gweld ydyn nhw'n hapus i chi ymweld â nhw.







Wrth sefydlu tîm neu ymuno â thîm, mae aelodau llawn yn derbyn eu copi eu hunain o *Beibl y Storïwr* a'r *Llawlyfr*, ac yn cael mynediad i ardal aelodau Agor y Llyfr ar y wefan, sy'n llawn adnoddau defnyddiol.

Meddai un pennaeth ysgol: 'Mae Agor y Llyfr yn gyfle i'n plant gael dealltwriaeth ddyfnach o storïau allweddol y Beibl. Mae'r gwasanaethau'n helpu i ddatblygu ysbrydolrwydd a moesoldeb ein plant fel rhan o'n cwricwlwm.'

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.biblesociety.org.uk/getinvolved/open-the-book

*Aled Davies*

**ADNABOD**

**Cymeriadau'r Hen Destament**

**ABRAHAM**

**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.**

## 33 Gwneud hwyl, cadw addewid, sicrhau cyfamod

### Darllen : Genesis 21:8–21

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 143)**

Rwyf am gychwyn heddiw gyda gair o eglurhad. Byddwch yn sylwi nawr fy mod am geisio gwneud darnau hwy dros yr wythnosau nesaf. Wedi sgwrsio gyda'r golygyddion, yr ydym angen dod â'r gyfres yma i ben cyn diwedd Awst, ac felly mi wnaf gyfyngu fy hun i esboniad syml â'r testun ac ambell bwynt sydd angen ei gymhwyso yn fwy na'i gilydd.

Bellach mae Isaac yn dair blwydd oed, ac Ismael yn 16eg. Fel y nodais yr wythnos ddiwethaf, mae gwawd Ismael o'i hanner brawd yn tynnu allan ystyr arall i enw Isaac – y tro hwn, gwneud hwyl yn hytrach na chwerthin. I bob golwg, mae ymateb Sarah yn ddealladwy ar sawl lefel, ac mae amryw o esbonwyr yn priodoli ystyr broffwydol i'w geiriau, ystyr oedd y tu hwnt i'w deall ei hunan. Wrth ddarllen am yr elyniaeth sydd rhwng y cnawd a'r ysbryd, rhwng plant Duw a phlant y byd, rhwng y rhai sy'n ymddiried yn y gyfraith a'r rhai sy'n adnabod gras, mae Paul yn defnyddio'r hanes hwn. Yn Galatiaid 4:21–31 mae'n cyfeirio at yr hanes fel alegori (4:24), gan bwysleisio: 'fel yr oedd plentyn y cnawd gynt yn erlid plentyn yr Ysbryd, felly y mae yn awr hefyd. Ond beth y mae'r Ysgrythur yn ei ddweud? "Gyrr allan y gaethferch a'i mab, oherwydd ni chaiff mab y gaethferch fyth gydetifeddu â mab y wraig rydd." Gan hynny, gyfeillion, nid plant i'r gaethferch ydym ni, ond plant i'r wraig rydd.' (Galatiaid 4:29-31)

Diddorol nad yw enw Ismael yn cael ei ddefnyddio yn yr adnodau hyn, gyda chyfeiriad yn unig at 'fab y gaethferch', ond mae'r sefyllfa yn ofid i Abraham gan ei fod yn ystyried Ismael fel mab (adnod 11). Ond, yng nghanol y tensiwn, mae Duw ei hun yn siarad, gan sicrhau Abraham y byddai'n gwarchod Ismael, yn diogelu ei linach, gan ddangos y byddai'n dod yn genedl arwyddocaol, er mai o Isaac y byddai llinach yr addewid yn cael ei sicrhau. Wedi sicrhau bwyd a diod iddynt, mae Hagar ac Ismael yn cychwyn i gyfeiriad yr Aifft, taith ddiddiolch drwy'r anialwch. Yr hyn oedd yn angenrheidiol oedd dod o hyd i ffynnon, ond fe glywn fod y dŵr yn y gostrel wedi pallu, a Hagar yn llusgo ei mab i gysgod. Gellir cyfieithu adnod 16 fel gweddi: 'Paid â gadael imi weld y bachgen yn marw', ond beth bynnag yw'r union ystyr, yr ydym yn gwybod yn dda am union ofid Hagar fel mam. Yr oedd yr angel wedi ymddangos iddi o'r blaen ym mhennod 16:7, a thebyg ei bod hi'n cofio hyn. A fyddai Duw yn ymyrryd yr eildro? Sylwch yn adnod 17 ar y ffordd y mae Duw yn ymateb, 'Clywodd Duw lais y plentyn … y mae Duw wedi clywed llais y plentyn'. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai ystyr enw Ismael yw 'y Duw sy'n clywed'. Er bod Duw yn cyfarwyddo Abraham i anfon Hagar ac Ismael i ffwrdd, nid ydynt 'i ffwrdd' o'i ofal a'i ddarpariaeth: 'Yna agorodd Duw ei llygaid, a gwelodd bydew dŵr; ... Bu Duw gyda'r plentyn, a thyfodd' (adnodau 19, 20). Fel yn yr addewid yma, ac yn wir yn yr hanesyn nesaf, yr ydym yn cael ein hatgoffa o'r cychwyn fod perthynas Duw â'i bobl yn un arbennig, ond nid yw hynny mewn unrhyw ffordd yn negyddu'r gwirionedd fod pob creadur, pawb, y cyfiawn a'r anghyfiawn, yn byw ar drugaredd a daioni yr Arglwydd.

Yn adnodau 22–31 yr ydym yn cael ein hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd ym mhennod 20, ac yn cael cip hefyd ar y tensiynau yr oedd Abraham yn gorfod eu hwynebu o fyw mewn ardal lle'r oedd cystadleuaeth am ddŵr. Wedi dweud hyn, hyd yn oed mewn anawsterau, ein cysur yw fod 'Duw gyda ni' ym mhopeth. Er bod hyn yn dod o enau Abimelech, mae'n atgof da i Abraham, yn golygu ei fod yn medru bod yn hael yn y sefyllfa. Mae'n amlwg fod Abraham wedi gorfod cyfeirio eisoes at y ffaith fod pobl Abimelech yn dwyn y dŵr o'r ffynnon yr oedd wedi ei chloddio (adnod 25), ond, yr oedd Abraham wedi adnabod elfen o drugaredd o law Abimelech, ac fel ymwelydd â'r wlad, mae'r cais am gytundeb yn un y mae'n bodloni ymateb yn gadarnhaol iddo. Er bod ein cyfieithiad yn cyfeirio at gais i Abraham fod yn 'deyrngar', tebyg mai ystyr orau'r gair yw 'caredigrwydd', neu gariad ffyddlon. Dyma'r gair ddefnyddir i gyfeirio at gariad Duw at y rhai sy'n ei garu yn Exodus 20:6, 'dangos trugaredd'.

Wrth i Abraham ymrwymo i'r caredigrwydd hwn, mae'n rhoi rhodd pellach o wartheg a defaid, a saith oen hesbin, ac o'u derbyn, mae Abimelech yn cydnabod mai Abraham gloddiodd y pydew. Yn wir, mae enw'r pydew, Beerseba, yn golygu 'ffynnon llw' neu 'ffynnon saith'. Yn dilyn, mae Abraham yn plannu coeden, ac yn gwneud hynny er mwyn diogelu atgof parhaus o'r caredigrwydd a'r cytundeb, ac yn yr enw mae'n ei roi i'r Arglwydd yma, 'y Duw tragwyddol', cawn synnwyr clir ei fod yn bwriadu bod yno am dymor gweddol, a natur barhaol y 'Duw sydd gyda ni'.

1. Sut mae ymateb yn briodol i'r rhai sy'n gwneud hwyl ar eich pen, neu'n gwneud hwyl ar yr hyn a gredwn fel Cristnogion?
2. Mae llawer o rieni wedi gorfod wynebu'r gofid o beidio gweld eu plant yn dod at Dduw, yn dilyn Iesu. Beth mae'r adnodau hyn yn ein dysgu am Dduw fel un sy'n gofalu, hyd yn oed pan nad oes ffydd bersonol?
3. Mae Abimelech yn atgoffa Abraham o'r hyn yr oedd ef, fel rhywun oedd yn addoli eilunod, wedi ei weld oedd yn wir am Dduw Abraham. Pa enghreifftiau sydd gennych o'ch ffydd yn cael ei chydnabod gan bobl y tu allan i'r eglwys?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 23 Gorffennaf am 7.30yh**
**Uchafbwyntiau 2**
Bydd Nia Roberts yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhagor o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cerddor Meurig Thomas, y cyfansoddwr Brian Hughes, a ffoaduriaid o Wcráin. A chawn berfformiad arbennig gan Lili Mohammad a Nansi Rhys.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 23 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
**Emynau ein prifeirdd: rhaglen 1**
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar emynau gan rai o'n prifeirdd

**Sul, 23 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Eileen Davies, archddiacon Aberteifi

# O Gefn Gwlad

## Colli'r bore, colli'r dydd

Pan aethom yn rhy hen i docio'r llwyni a'r gwrychoedd o'n cwmpas, cawsom ŵr o'r Bala i wneud y gwaith drosom. Ac un da ydi o. Y tro diwethaf iddo ddod fe ddaeth gyda thoriad gwawr, ac roedd rhan helaeth o'r gwaith wedi ei wneud cyn i ni godi.

Dros baned, mi wnes i grybwyll wrtho ei fod yn dechrau arni yn andros o gynnar yn hytrach na chymryd pethe yn fwy ara' deg a pheidio lladd ei hun. Dyma'i ateb: 'Colli'r bore, colli'r dydd.' Dywediad sy bron yn ddihareb erbyn hyn, gyda mwy nag un ystyr iddo.

O ystyried ffigyrau cyfrifiad 2021, colli'r dydd y mae Cristnogaeth yng Nghymru a gwledydd eraill Prydain; Cymru, mae'n debyg, yw'r wlad fwya anghrefyddol yn Ewrop. Llai na'r hanner yn cyfri eu hunain yn Gristnogion erbyn hyn, a chanran fechan iawn yn addoli o Sul i Sul. Mae'n drist ond mae'n ffaith.

Bu Cymru unwaith yn wlad y menig gwynion – cyfeiriad at y menig gwynion a wisgai'r barnwr mewn llys pan nad oedd achosion o droseddau ger ei fron. Nid felly bellach, ac onid oes cysylltiad rhwng dirywiad Cristnogaeth a chynnydd mewn achosion o drais a drwgweithredu?

Be' sy i'w gyfri am y dirywiad syfrdanol hwn, tybed? 'Dyw'r ateb ddim gen i, ond gallaf ofyn ambell gwestiwn. Ai colli'r bore wnaethon ni? A fuon ni yn rhy gysglyd, yn rhy ddiofal, yn gorweddian ar welyau esmwyth difaterwch? Ai cau ein llygaid a wnaethom i'r arwyddion oedd o'n cwmpas? Ac yr oedd yr arwyddion yno, cyn belled yn ôl â diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Darllenwch sawl llyfr cofnodion eglwysig ac fe gewch ynddynt sylwadau yn cofnodi lleihad yn nifer yr addolwyr mewn capeli ac eglwysi – wedi 1918!

Pam y bu hyn, tybed? Onid profiadau y rhai fu yn y rhyfel? Cawsant eu hargyhoeddi i fynd i ymladd brwydrau dros gyfiawnder a heddwch a brawdgarwch. A hynny gan wŷr a wisgai lifrai ysblennydd ac a ddarlunient y rhyfel fel antur gyffrous yn llawn rhamant a sifalri. A chyfrifoldeb Cristnogol hefyd – darllenwch areithiau John Williams, Brynsiencyn! A beth oedd y realaeth welson nhw? Llaid a gwaed yn gymysg ar faes y gad, lladd diatal, dinistr a chyrff maluriedig a brwydro ffyrnig i ennill llathen o dir nad oedd ei ennill yn cyfri dim yn y diwedd.

A daethant yn ôl yn friwedig, gorff a meddwl, i ganol gwladwriaeth a chymdeithas nad oedd yn hidio taten amdanynt. Onid gwarth yw fod yn rhaid wrth werthiant y pabi coch hyd yn oed heddiw i gynnal clwyfedigion ein rhyfeloedd? Ble mae'r llywodraeth? Hawdd y gall ein gwleidyddion wisgo coch ar eu lapeli bob Tachwedd. Byddai'n rheitiach i'w hwynebau fod yn goch gan gywilydd.

Daeth miloedd yn ôl o'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi eu dadrithio'n llwyr, a throesant eu cefn ar grefydd gyfundrefnol. Digwyddodd yr un peth wedi'r Ail Ryfel Byd, ac rwy'n ddigon hen i gofio amryw o'r rhai yn fy ardal enedigol drodd eu cefnau ar



Llun: Neom ar Unsplash https://unsplash.com/photos/-AFeVPw7IDU

gapel ac eglwys am byth, er bod y gofal cymdeithasol beth yn well yn 1945 nag yn 1918.

Yn y cyfamser oni fethodd pregethu yn gyffredinol â mynd i'r afael â phroblemau mawr y byd? Hefyd, methu esbonio credo yng ngoleuni datblygiadau gwyddonol a darganfyddiadau am y byd a'r greadigaeth? Dal i gredu yng ngardd Eden a'r pechod gwreiddiol. Pregethu'r mythau fel pe baent yn ffeithiau yn hytrach nag ymdrechion cyntefig i geisio esbonio gwirioneddau.

A throdd gwerin soffistigedig hanner ola'r ugeinfed ganrif a dechrau hon ei chefn ar hyn oll.

Byddwn, fe fyddwn yn treulio llawer o'n hamser y dyddiau hyn yn ceisio darganfod y rhesymau dros yr encilio syfrdanol hwn. A hwyrach yn wir, er yn dod i'r casgliad nad un rheswm sydd yna, yn gorfod cyfaddef yn y diwedd nad yw'r argyfwng dwys hwn yr ydym yn ei wynebu yn ddim mwy, na dim llai, nag argyfwng cred.

*Elfyn Pritchard*

# Ddoe ac yfory

Chwaraeodd adeilad y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ran bwysig ym mywyd y Cyfundeb am yn agos i gan mlynedd. Bu'r rhan helaethaf o'n darpar weinidogion yn efrydwyr yno a hefyd fe'i defnyddiwyd yn fan ar gyfer pwyllgorau'r Cyfundeb. Ynddo y cynhaliwyd Ysgol Haf yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ynghyd â llawer ddigwyddiad arall o bwys.

Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol yn westy'r Cambria. Fe'i prynwyd yn 1906 gan David Davies, Llandinam, a'i gyflwyno'n rhodd i'r Cyfundeb i'w addasu'n Goleg Diwinyddol Unedig ar gyfer y ddwy Gymdeithasfa ar y pryd, yn y Gogledd a'r De. Cytunodd talaith y De i symud y ddarpariaeth ddiwinyddol o Drefeca yn syth i Aberystwyth, ond bu'n rhaid aros tan 1922 i Gymdeithasfa'r Gogledd gytuno i wireddu'r cynllun o greu un Coleg Diwinyddol Unedig i'r Cyfundeb.



Llun: Iestyn Hughes

Y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth

Gwnaethpwyd y penderfyniad i gau'r Coleg yn 2003 ac fe werthwyd yr adeilad i ymddiriedolaeth deuluol o Zurich. Llogwyd ystafelloedd ar gyfer swyddfeydd a busnesau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hefyd defnyddiwyd yr ystafell fwyta a'r gegin yn dŷ bwyta am gyfnodau; yn ogystal, darparwyd llety i fyfyrwyr ar y lloriau uchaf.

Bellach agorwyd pennod newydd yn ei hanes. Yn ddiweddar prynodd Prifysgol Aberystwyth yr adeilad, sydd, wrth gwrs, y drws nesaf i'r Hen Goleg. Daw felly'n rhan o brosiect enfawr yn costio dros £43 miliwn a fydd yn creu gwesty, cyfleusterau i gynadleddau ac arddangosfeydd, a hefyd unedau i'w gwneud yn bosibl i bobl ifanc gychwyn eu busnesau eu hunain. Daeth y swm o £5.4 miliwn ar gyfer prynu'r Cambria o gronfa llywodraeth y Deyrnas Unedig i hyrwyddo gwastatáu (ei *Levelling Up Fund*). Eisoes fe ddefnyddir yr adeilad yn swyddfeydd i'r cynllun cyfan. Gobeithir cwblhau'r holl waith addasu'r ddau adeilad erbyn diwedd 2026.

Rwy'n siŵr y bydd caredigion y Coleg Diwinyddol gynt yn falch o glywed am y datblygiadau newydd hyn mewn adeilad a fu ac sy'n dal yn annwyl i lawer ohonom.

*John Tudno Williams*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Gras a chariad

**Emyn 302 'Dyma gyfarfod hyfryd iawn'**

**Darllen – Salm 139:1–12**

**Gweddi**

Arglwydd, o sylweddoli mor fanwl yw dy adnabyddiaeth ohonom fel bod hyd yn oed ein heisteddiad a'n cyfodiad yn hysbys i ti, gwelwn mai ofer yw ceisio cuddio unrhyw beth rhagot. Felly, fe ddown atat fel yr ydym, gan ofyn am faddeuant am bob pechod, trugaredd am bob llithriad, am gryfder ym mhob gwendid, ac am hyder ym mhob rhyw storm. Diolchwn i ti na ddaethost i'n condemnio ond er mwyn i'r byd gael ei achub drwy dy Fab. Dangos i ni olud dy ras, maint dy gariad yn Iesu Grist, a chysondeb dy ewyllys da tuag atom drwy'r Ysbryd. Amen.

**Cyflwyniad**

Efallai y cawn ein temtio i ofyn, 'Beth sydd gan hanes am gymeriad twyllodrus o Ganaan i'w ddweud wrthym ni heddiw?' Wrth egluro rhyfeddod yr efengyl i gynulleidfa o Gristnogion yn Rhufain, cynulleidfa oedd, mae'n sicr, yn cynnwys mwy o genedl-ddynion nag o Iddewon, roedd yr Apostol Paul am fynnu bod hanesion yr Ysgrythurau Iddewig yn gwbl berthnasol i genedl-ddynion hefyd. Ffydd yn y cyfamod, a ffydd yn yr Hwn sy'n addo, yw sail pob gwir ffydd. Roedd hynny'n wir i Abraham ac i'w 'ddisgynyddion' sy'n arddel ffydd gyfatebol (Rhufeiniaid 4:11–12).

Ac er mor rhyfeddol yw'r cyswllt hwn, daw llawer iawn mwy na hyn i'r amlwg yn ein darlleniad.

**Emyn 184 'Dyro i ni weld o'r newydd'**

**Darllen – Genesis 28:10–21**

**Yr euog a ffy**

Byddai'n rhwydd iawn i ni ddarllen yr hanes am Jacob yn ffoi o'i gartref fel moeswers am dwyll a'i ganlyniadau.

Mae'n wir fod gan Jacob reswm dros ffoi ar frys a chefnu ar ei deulu. Roedd wedi twyllo er mwyn sicrhau y byddai Isaac yn ei fendithio cyn iddo fendithio'i fab cyntaf-anedig, Esau.

Gadawodd Jacob ei dad, Isaac, o'i ôl, yn ŵr ffaeledig, yn ddall, yn oedrannus, *yn drist* am iddo gael ei dwyllo gan ei fab.

Gadawodd Jacob ei frawd, Esau, o'i ôl. Brawd ydoedd a drodd yn *elyn* iddo; brawd oedd yn ddig am iddo golli'r fendith dadol.

Mae'n wir fod Esau wedi bod yn ddibris o'r fendith honno cyn hynny, a'i fod wedi gwerthu ei enedigaeth fraint i'w frawd am ddysglaid o gawl ffacbys. Ond gadawodd y cawl flas chwerw pan fforffedodd fendith ei dad hefyd.

Gadawodd Jacob ei fam, Rebeca, o'i ôl hefyd i *wynebu canlyniadau* ei ffafriaeth. Roedd hithau hefyd wedi chwarae ei rhan yn y twyll i sicrhau'r fendith i'w mab Jacob. O bosib, roedd Rebeca yn cofio'r addewid a wnaed iddi cyn i'w hefeilliaid gael eu geni (Genesis 25:23). Efallai iddi weithredu fel y gwnaeth er mwyn sicrhau bod yr addewid yn cael ei gyflawni!

Byddai, fe fyddai'n rhwydd iawn i foesoli am ganlyniadau twyll, am ddibrisio etifeddiaeth, am beryglon ffafriaeth.

Ond byddai hynny'n golygu ein bod yn anwybyddu pwysigrwydd yr hanes o fewn naratif y Beibl ar ei hyd.

O graffu ar yr adnodau a'u gosod o fewn cyd-destun y Beibl yn ehangach, gwelwn mai hanes ydyw'n sylfaenol am yr Arglwydd, ei ffyddlondeb i'w addewid, a'i amcan i fendithio'r byd yn grwn drwy 'had Abraham'.

**Breuddwyd**

Ffoi yn ôl at ei wreiddiau, at ei ewythr Laban, ger Haran, a wnaeth Jacob. Ond yn ei gwsg, ac yntau'n lluddedig wedi iddo ffoi ar frys, breuddwydiodd am ysgol oedd a'i thraed ar y ddaear a'i phen yn y nefoedd, ac 'angylion Duw yn dringo a disgyn ar hyd-ddi' (28:12). Nid Arglwydd pell neu anhysbys mo'r Arglwydd fyddai'n datguddio'i hun iddo. Nid eilun, na delw, na duw o greadigaeth ddynol, a'i draed wedi eu sodro i'r ddaear mohono chwaith. Yr Arglwydd 'pell' oedd yr hwn a ddaeth yn 'agos' ato.

Nid ar ddamwain y cyfeiriodd Iesu ei hun at yr adnodau yma yn Genesis gan fynnu mai Ef ei hun yw'r 'ysgol' ddaearol/nefol drwy'r hwn y daw'r Arglwydd a'i holl fendithion, a'i weithgarwch achubol atom, fel dynol ryw (Ioan 1:49–51). Iesu, mwyach, yw 'tŷ Dduw, a … phorth y nefoedd' (Genesis 28:17).

**Cam-ddeall y cyfarfyddiad**

Er bod ei amgylchiadau'n bur ansicr, nid oedd Jacob (yn fwy na ninnau chwaith) yn llawn sylweddoli arwyddocâd y cyfarfyddiad. Credai Jacob, mae'n amlwg, fod ganddo ryw gymaint o hawl i osod amodau i drugaredd Duw (adn. 20–21). Er na ddeallodd hynny'n syth, unig obaith *Jacob anffyddlon* mewn gwirionedd oedd fod yr *Arglwydd yn ffyddlon* i'w gyfamod, a hynny'n annibynnol ar unrhyw amodau eraill.

**Gras**

Wrth gyfeirio at ryfeddod y newyddion da a gyhoeddwyd am Iesu Grist, a thrwy Iesu Grist, disgrifiodd y Testament Newydd ryfeddod gras a'i effeithiau ar ein bywyd. *Rhodd anhaeddiannol Duw yw gras*. Y mae gras yn bywhau'r 'meirw' ysbrydol, yn rhyddhau'r euog o gaethiwed 'diafol, cnawd a byd'. Y mae'n ein hachub, yn ein codi i eistedd gyda Christ yn y 'nefolion leoedd'. Mynegiant o diriondeb yr Arglwydd yw ei ras; gweithgarwch dwyfol ydyw sy'n cynnig rhodd bywyd a rhyddid, a hynny'n annibynnol ar ein cyrhaeddiant neu ein gallu (Effesiaid 2:1–10).

**Ffyddlondeb**

Hanes yw hwn felly am Dduw sydd, yn ei ras, yn dewis gweithredu drwy Jacob, nid ar sail unrhyw haeddiant, hawl, tras, na daioni, nac ar sail unrhyw rinwedd arall. Gweithredodd yr Arglwydd fel hyn am iddo ddewis gweithredu fel hyn, a hynny er mwyn cadw ei gyfamod a'i addewid i Abraham (Rhufeiniaid 9:10–16).

Adnewyddwyd i Jacob y cyfamod a wnaed ag Abraham, am etifeddiaeth, am ddisgynyddion, a'i addewid i fendithio 'holl deuluoedd y ddaear ynot ti ac yn dy ddisgynyddion' (12:1–2; 28:14). Ar sail hyn rhoddwyd addewid sicr i Jacob: 'Wele, yr wyf fi gyda thi, a chadwaf di ble bynnag yr ei, a dof â thi'n ôl i'r wlad hon; oherwydd ni'th adawaf nes imi wneud yr hyn a ddywedais' (28:15).

Nid annhebyg mo addewid Iesu i'w Apostolion cyn iddo ddychwelyd at y Tad (Mathew 28:16–20). Ni phallodd addewid yr Arglwydd i ddwyn bendith a lles i'r holl fyd drwy Iesu, had Abraham. Oherwydd hynny, rhoddwyd i'w bobl addewid am bresenoldeb ym mhob amgylchiad, am ddiogelwch ym mhob man, am sicrwydd y byddai'r Arglwydd yn cyflawni ei air.

**Gweddi**

Ti, Dduw y dechreuadau newydd, caniatâ i ninnau adnabod o'r newydd dy gyfamod grasol, di-droi'n-ôl yn Iesu Grist. A thrwy ffydd yn dy addewid, llanwa ninnau drachefn â hyder gostyngedig yn dy allu a'th ffyddlondeb. Amen.

**Emyn 207 'Cyfamod hedd'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru